SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

# Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI) 2016-2017

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

© Hawlfraint y Goron 2017 WG31431 ISBN digidol 978-1-4734-9273-8

# Adroddiad Archwilio yr Awdurdod Goruchwylio Lleol 2016 – 2017

| | |
|---|---|
| Rhif y fersiwn: | 1 |
| Dyddiad cyhoeddi: | 21 Mawrth 2017 |
| Paratowyd gan: | Maureen Wolfe, Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol |

## *Rhestr Ddosbarthu:*

*Goruchwylwyr Bydwragedd*

*Pennaeth Bydwreigiaeth*

*Cyfarwyddwr Nyrsio*

*Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd*

**Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: www.agic.org.uk**

## Cynnwys Tudalen


Cynnwys ........................................................................................ 3
1. Cyflwyniad ................................................................................. 4
2. Y Safonau Goruchwylio.................................................................. 4
3. Nodau Archwiliad yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ............................. 5
4. Methodoleg................................................................................... 5
5. Y Broses Archwilio ......................................................................... 5
6. Ymweliad archwilio blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol .......... 6
7. Asesu Cydymffurfiaeth yn erbyn Rheolau a Safonau Bydwragedd (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012)....................................................... 7
8. Canfyddiadau'r adolygydd lleyg ......................................................... 15
9. Crynodeb o'r Argymhellion ................................................................ 17
10. Monitro........................................................................................... 20
11. Casgliad.......................................................................................... 21
12. Atodiadau ....................................................................................... 22
12.1 Atodiad 1 – Rhaglen Archwiliad Blynyddol .......................... 22
12.2 Atodiad 2 – Holiadur yr AGLl................................................ 25
12.3 Atodiad 3 – Holiadur yr adolygydd lleyg .............................. 39

# 1. Cyflwyniad

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n pennu'r rheolau a'r safonau ar gyfer swyddogaeth yr Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLl) ac ar gyfer goruchwylio bydwragedd. Mae Swyddog Bydwreigiaeth Awdurdod Goruchwylio Lleol yn atebol yn broffesiynol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Swyddogaeth Swyddog Bydwreigiaeth AGLl yw sicrhau bod proses statudol ar gyfer goruchwylio bydwragedd ar waith i sicrhau bod menywod yn derbyn gofal bydwreigiaeth diogel a safonol.

Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu penodi gan yr AGLl, ac mae eu swyddogaeth wedi'i chwmpasu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Prif gyfrifoldeb yr AGLl yw diogelu'r cyhoedd drwy fonitro ansawdd ymarfer bydwreigiaeth drwy gyfrwng goruchwyliaeth statudol ar gyfer bydwragedd. Mae'r AGLl yn penodi dau Swyddog Bydwreigiaeth AGLl i gyflawni swyddogaethau'r AGLl yng Nghymru.

Mae'n ofynnol i bob bydwraig sy'n ymarfer yn y Deyrnas Gyfunol gael Goruchwyliwr Bydwragedd. Mae Goruchwyliwr Bydwragedd yn fydwraig sydd wedi cymhwyso ers o leiaf tair blynedd ac sydd wedi ymgymryd â chwrs paratoi ar oruchwylio bydwragedd (Rheol 8, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012). Mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn rhywun y gall bydwragedd fynd atynt i ofyn am gyngor, arweiniad a chymorth. Bydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn monitro gofal drwy gwrdd â phob bydwraig yn flynyddol, (Rheol 9, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012) ac archwilio dulliau cadw cofnodion y bydwragedd ac ymchwilio i unrhyw adroddiadau o broblemau neu bryderon wrth ymarfer. Maent hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau difrifol a hysbysu Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn eu cylch (Rheol 10, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012).

Mae Rheol 7 *Rheolau a Safonau Bydwragedd* (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Bydwreigiaeth AGLl gwblhau archwiliad blynyddol o arfer a goruchwyliaeth bydwragedd yn eu hardal hwy er mwyn sicrhau bod gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu cyflawni. Mae adroddiad archwilio blynyddol yr AGLl yn hysbysu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Rheol 13).

# 2. Y Safonau Goruchwylio

1. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd ar gael i gynnig arweiniad a chymorth i fenywod sy'n defnyddio gwasanaeth mamolaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar fenywod.
2. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn atebol yn uniongyrchol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol am unrhyw fater sy'n ymwneud â goruchwyliaeth statudol bydwragedd ac mae fframwaith lleol yn bodoli i gefnogi'r swyddogaeth statudol.
3. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol ac yn meithrin darpar arweinwyr.
4. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn hawdd mynd atynt ac ar gael i fydwragedd er mwyn eu cefnogi yn eu harfer.
5. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynorthwyo bydwragedd i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer arfer bydwreigiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

   *Rheolau a Safonau Bydwragedd (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2012)*

# 3. Nodau Archwiliad yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Diben archwiliad blynyddol 2016 – 17 yw:

- Cadarnhau bod argymhellion yr archwiliad blaenorol wedi'u cyflawni.
- Cadarnhau bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni'r swyddogaeth oruchwylio ym mhob bwrdd iechyd i safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith ar gyfer diogelu mamau a babanod.
- Adolygu effaith goruchwyliaeth ar arfer bydwreigiaeth.
- Gwneud argymhellion ar gyfer datblygiadau pellach a gwelliannau parhaus.
- Sicrhau bod ymarfer bydwreigiaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymatebol i anghenion menywod.
- Asesu a datblygu dealltwriaeth o wybodaeth cyfranogwyr o'r newidiadau i oruchwyliaeth statudol.

Bydd y canfyddiadau archwilio o bob rhan o Gymru yn hysbysu cyfeiriad y cymorth a roddir i fydwragedd pan wneir newidiadau deddfwriaethol a fydd yn golygu y daw goruchwyliaeth statudol i ben yn 2017.

# 4. Methodoleg

Wrth archwilio safonau'r AGLl, mae tîm archwilio'r AGLl yn dilysu tystiolaeth. Mae hefyd yn ofynnol i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd adlewyrchu ar eu perfformiad hwy drwy gyflwyniad, a roddir i'r tîm archwilio a bydd y cyflwyniad hwn yn cynnwys llwyddiannau a heriau. Mae hunan-adolygu yn cael ei gydnabod fel arf pwerus sy'n ysgogi datblygiad proffesiynol ac sy'n creu ymwybyddiaeth o atebolrwydd personol.

Cynhelir adolygiad o dystiolaeth cyn yr archwiliad gan y tîm adolygu ac mae'n cynnwys adolygiad cymheiriaid o gydymffurfiaeth y goruchwyliwr bydwragedd annibynnol i broses ymchwilio'r AGLl.

Yn y flwyddyn olaf hon o archwilio goruchwyliaeth statudol yr AGLl, bydd y dull a ddefnyddir yn canolbwyntio ar y rôl statudol graidd a ddisgrifir yn y Rheolau a Safonau Bydwragedd.

# 5. Y Broses Archwilio

Ar gyfer 2016-17 roedd y broses archwilio yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn unol ag asesiad o gydymffurfiaeth yn erbyn y Rheolau a Safonau Bydwragedd (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012), gan gynnwys adolygiad o'r cynllun gweithredu i gyflawni argymhellion yr AGLl yn dilyn ymweliad archwilio 2015-16.
- Ymweliad archwilio yn cynnwys holi bydwragedd a menywod.

# 6. Ymweliad archwilio blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Cynhaliwyd ymweliad archwilio blynyddol yr AGLl ar 13 a 14 Medi 2016 gan Maureen Wolfe, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl. Cafodd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl ei chefnogi gan ei chymheiriaid, y Goruchwylwyr Bydwragedd Julie Hurford a Wendy Roberts, adolygwr yr AGLl Lindsey Phillips a Sadie Silcox, cymorth tîm yr AGLl.

Aelodau tîm goruchwylio bwrdd iechyd Prifysgol Cwm Taf oedd Kim Ashton, Rhian Evans a Rhian Boase. Roedd 203 o fydwragedd yn gweithio yng Nghwm Taf ar ddiwedd Chwarter un (30 Mehefin 2016) ac 1.8 o Oruchwylwyr Bydwragedd sy'n gyfwerth am amser cyflawn. Mae hyn yn gyfwerth ag un Goruchwyliwr Bydwragedd i 11 bydwraig, sydd o fewn y gymhareb a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o un Goruchwyliwr Bydwragedd i 15 bydwraig.

Mae gan bob Goruchwyliwr Bydwragedd gweithredol lwyth achosion o fydwragedd ac maent yn darparu cyngor a chymorth goruchwylio 24 awr drwy rota ar alwad Cymru gyfan.

Cyfrannodd pob Goruchwyliwr Bydwragedd at y gwaith o gasglu tystiolaeth a datblygu'r cyflwyniad ar gyfer yr ymweliad archwilio. Mae hyn yn cwmpasu cyflawniadau a heriau'r timau ar hyd y flwyddyn 2015-16.

# 7. Asesu Cydymffurfiaeth yn erbyn Rheolau a Safonau Bydwragedd (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012)

| Rheol 4 Hysbysiadau gan Awdurdod Goruchwylio Lleol | |
|---|---|
| **Rheol**<br><br>(1) Mae'n rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gyhoeddi:<br>(a) enw a chyfeiriad ei swyddog bydwreigiaeth y cyflwynir hysbysiad o dan Reol 3(2) iddi:<br>(b) y dyddiad y mae angen i fydwraig roi hysbysiad o dan Reol 3(3).<br>(1A) Mae'n rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol yn Lloegr gyhoeddi:<br>(a) enw a chyfeiriad pob un o'i swyddogion bydwreigiaeth y cyflwynir hysbysiad o dan reol 3(2) neu (3) ar ei chyfer;<br>(b) y dyddiad y mae angen i fydwraig roi hysbysiad o dan Reol 3(3).<br>(2) Mae'n rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol hysbysu'r Cyngor, ar y ffurf ac ar amlder y bydd y Cyngor wedi gofyn amdano, ynghylch unrhyw hysbysiad a gyflwynir iddo o dan Reol 3.<br><br>**Safon yr AGLI**<br><br>1 Er mwyn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer goruchwylio bydwragedd, rhaid i'r awdurdod goruchwylio sicrhau:<br>1.1 Yr anfonir hysbysiadau bwriad i ymarfer at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth erbyn y dyddiad cyflwyno blynyddol a bennwyd gan y Cyngor.<br>1.2 Anfonir hysbysiadau bwriad i ymarfer a dderbynnir ar ôl y dyddiad cyflwyno blynyddol at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. | |
| **Disgwyliad yr AGLI** | **Tystiolaeth a Chanfyddiadau'r Archwiliad** |
| Byddai ffurflenni hysbysiad Bwriad i Ymarfer wedi'u hanfon at bob bydwraig y mae eu henw yn ymddangos ar y gofrestr a oedd yn weithredol ar 31 Mawrth 2016. I fod yn gymwys i gyflwyno hysbysiad Bwriad i Ymarfer, rhaid i fydwragedd sicrhau bod ganddynt gofrestriad priodol ar y rhan bydwragedd o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'u bod yn bwriadu ymarfer bydwreigiaeth.<br><br>Cyn llofnodi'r hysbysiad Bwriad i Ymarfer, mae'n rhaid i'r Goruchwyliwr Bydwragedd a enwir fod wedi cynnal asesiad o gydymffurfiaeth y fydwraig â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gynnal cofrestriad bydwreigiaeth a rhaid iddynt gadarnhau eu bod yn gymwys i ymarfer fel bydwraig. Rhaid i'r Goruchwyliwr Bydwragedd a enwir gofnodi'r dystiolaeth maent wedi'i hadolygu ar gyfer pob bydwraig a nodi | Canfuwyd bod pob bydwraig wedi cyflwyno eu ffurflen Bwriad i Ymarfer i oruchwyliwr a'u bod yn gymwys i ymarfer ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.<br><br>Gallai'r tîm gyfleu proses glir a chadarn ar gyfer cyflwyno ffurflenni Bwriad i Ymarfer.<br><br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn sicrhau bod bydwragedd yn cydymffurfio â safon PREP cyn iddynt lofnodi eu ffurflen Bwriad i Ymarfer drwy gyfeirio at eu cofnodion adolygu blynyddol unigol sy'n cynnwys gwybodaeth am eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus a'u horiau ymarfer. |

| | |
|---|---|
| sut maent yn cyflawni gofynion PREP y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o 35 awr o weithgarwch dysgu (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) a 450 awr o ymarfer cofrestredig ym mhob Hysbysiad o Ymarfer 3 blynedd. | |

**Arfer Nodedig**

- **Cydymffurfiaeth o 100% â chofnodion a dileadau ffurflenni Bwriad i Ymarfer.**
- **Cydymffurfiaeth o 100% â ffurflenni Bwriad i Ymarfer misol.**

**Meysydd i'w Gwella**

- **D/G**

**Canlyniad**

**Cyflawnwyd Rheol 4**

## Rheol 6 Cofnodion

**Rheol**

(1) Mae'n rhaid i fydwraig, cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol, sicrhau bod unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r gofal neu'r cyngor a roddir i fenyw neu ofal a roddir i faban, ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r gofal hwnnw:
(a) yn cael eu trosglwyddo i gyflogwr y fydwraig i'w storio'n ddiogel;
(b) yn cael ei storio'n ddiogel gan y fydwraig ei hun os yw'n hunangyflogedig: ond os na all y fydwraig wneud hynny, eu trosglwyddo i'r awdurdod goruchwylio lleol yn ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol i'w storio'n ddiogel.
(2) Pan fydd bydwraig yn rhoi'r gorau i'w chofrestriad gyda'r Cyngor mae'n rhaid iddi, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r gofal neu'r cyngor a roddwyd i fenyw neu'r gofal a roddwyd i faban yn cael eu trosglwyddo i'w storio'n ddiogel gyda'r awdurdod goruchwylio lleol a oedd, cyn i'w chofrestriad ddod i ben, yn awdurdod goruchwylio lleol y fydwraig yn ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol.

**Safon yr AGLl**

1 Mae'n rhaid i awdurdod goruchwylio lleol gyhoeddi canllawiau lleol ar gyfer trosglwyddo cofnodion bydwreigiaeth gan fydwragedd hunangyflogedig a ddylai gynnwys:
1.1 Pan fydd cofnodion i'w trosglwyddo
1.2 I bwy bynnag y trosglwyddir y cofnodion iddynt
1.3 Dulliau i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cludo'n ddiogel
1.4 Dogfennaeth i gofnodi trosglwyddiad o'r fath.

**Safon bydwragedd**

1 Mae'n rhaid cadw unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r gofal a roddwyd i fenyw neu faban yn ddiogel am 25 o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith os ydynt yn cynnwys gwybodaeth glinigol.
2 Dylai bydwragedd hunangyflogedig sicrhau bod menywod yn gallu cael mynediad i'w cofnodion a dylent eu hysbysu ynglŷn â lleoliad eu cofnodion os byddant yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod goruchwylio lleol.

| Disgwyliad yr AGLl | Tystiolaeth a Chanfyddiadau'r Archwiliad |
|---|---|
| Mae gan fydwragedd gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n enwi unigolyn a/neu wybodaeth glinigol yn cael eu cadw'n ddiogel (mae hyn yn cynnwys dyddiaduron gwaith).<br><br>Mae'n rhaid i Oruchwylwyr Bydwragedd gynghori bydwragedd sy'n ymarfer ar sail hunangyflogedig o bryd y dylent drosglwyddo cofnodion i'r AGLl a gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLl y DU ar Drosglwyddo cofnodion bydwreigiaeth ar gyfer bydwragedd hunangyflogedig. | Canfuwyd bod pob cofnod mamolaeth wedi'u storio'n ddiogel yn ystod yr ymweliad archwilio. Cafodd yr ardaloedd storio nodiadau yn yr adran famolaeth eu hap-wirio gan y tîm archwilio ar ddiwrnod yr archwiliad.<br><br>Mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn gallu disgrifio'r broses ofynnol ar gyfer cofnodion bydwragedd hunangyflogedig. |

**Arfer Nodedig**

- **Mae proses ar waith ar gyfer trosglwyddo cofnodion i AGIC**

**Meysydd i'w gwella**

- **D/G**

**Canlyniad**

**Cyflawnwyd Rheol 6**

## Rheol 8 Goruchwylwyr Bydwragedd

**Rheol**

(1) Mae'n rhaid i awdurdod goruchwylio lleol gyflogi'r nifer y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn ddigonol o oruchwylwyr bydwragedd i arfer goruchwyliaeth dros fydwragedd sy'n ymarfer yn ei ardal.
(2) Rhaid i oruchwyliwr bydwragedd:
(a) fod yn fydwraig sy'n ymarfer;
(b) cyflawni'r safonau profiad ac addysg angenrheidiol ar gyfer rôl goruchwyliwr bydwragedd sy'n cael eu pennu gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

(3) Yn dilyn ei phenodiad, mae'n rhaid i oruchwyliwr bydwragedd gwblhau cyfnodau o ddysgu perthnasol sy'n ymwneud â goruchwylio bydwragedd a fydd yn ofynnol gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

**Safonau'r AGLl**

1 Mae goruchwylwyr bydwragedd yn cael eu penodi gan yr awdurdod goruchwylio lleol ac maent yn atebol iddynt am unrhyw fater sy'n ymwneud â goruchwyliaeth statudol bydwragedd.  Mae'n rhaid i'r awdurdod goruchwylio lleol:

- 1.1 Gyhoeddi polisi sy'n nodi ei feini prawf a'i weithdrefnau ar gyfer penodi unrhyw oruchwylwyr bydwragedd newydd yn ei ardal.
- 1.2 Cynnal rhestr gyfredol o oruchwylwyr bydwragedd yn ei ardal.
- 1.3 Sicrhau y darperir o leiaf chwe awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus ym mhob practis y flwyddyn.

2 I gael ei phenodi am y tro cyntaf fel goruchwyliwr bydwragedd, mae'n rhaid i fydwraig:

- 2.1 Sicrhau bod ganddi o leiaf tair blynedd o brofiad fel bydwraig sy'n ymarfer.  Dylai o leiaf un o'r blynyddoedd hyn fod yn y cyfnod dwy flynedd yn union cyn ei dyddiad penodi cyntaf.

3 Rhaid iddi hefyd fod wedi:

- 3.1 Cwblhau rhaglen addysg gymeradwy yn llwyddiannus ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd o fewn y cyfnod tair blynedd yn union cyn ei dyddiad penodi cyntaf.
- 3.2 Pan fydd mwy na thair blynedd ond llai na phum mlynedd wedi mynd heibio ers iddi gwblhau rhaglen addysg gymeradwy yn llwyddiannus ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd, ei bod wedi cydymffurfio â'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.

4 Ar gyfer unrhyw benodiadau dilynol fel goruchwyliwr bydwragedd, mae'n rhaid ei bod yn fydwraig sy'n ymarfer ac:

- 4.1 Ei bod wedi ymarfer fel goruchwyliwr bydwragedd neu swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylio lleol o fewn y cyfnod o dair blynedd yn union cyn y dyddiad penodi dilynol; neu
- 4.2 Pan fydd ond wedi ymarfer fel goruchwyliwr bydwragedd neu swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylio lleol o fewn cyfnod sy'n fwy na thair blynedd ond llai na phum mlynedd yn union cyn y dyddiad penodi, ei bod hefyd wedi cydymffurfio â'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus yn llwyddiannus ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3.

5 Mae'n rhaid i oruchwyliwr bydwragedd allu cyflawni'r cymwyseddau a nodir yn y Safonau ar gyfer paratoi ac ymarfer goruchwylwyr bydwragedd (Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth 2006).

| Disgwyliad yr AGLl | Tystiolaeth a Chanfyddiadau'r Archwiliad |
|---|---|
| Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu cyflogi a'u cefnogi'n ddigonol ar ôl iddynt gwblhau'r cwrs Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd.<br><br>Mae'n rhaid i bob Goruchwyliwr Bydwragedd arddangos y gallu i gyflawni'r cymwyseddau a nodir yn y Safonau ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012).<br><br>Mae rhestr gyfredol o Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael ar gronfa ddata'r AGLl ac adroddir ar y rhestr yn adroddiad archwilio'r AGLl. | Mae'r nifer gywir o Oruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu penodi yn y bwrdd iechyd.<br><br>Mae pob aelod o'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cwblhau a chofnodi eu gweithgareddau PREP gofynnol.<br><br>Mae pob aelod o'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi hunanasesu eu cymhwysedd i gyflawni'r rôl ac mae ganddynt gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu a nodwyd ganddynt.<br><br>Ar adeg yr archwiliad roedd y rhestr o Oruchwylwyr Bydwragedd ar gronfa ddata'r AGLl yn gywir. |

| Arfer Nodedig |
|---|
| • Mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cyfuno eu gwaith tîm ac wedi gwella eu gweledigaeth clinigol |
| **Meysydd i'w gwella** |
| • Parhau i wella eu gweledigaeth |
| **Canlyniad** |
| **Cyflawnwyd Rheol 8** |

## Rheol 9 Cyfrifoldebau'r Awdurdod Goruchwylio Leol ar gyfer Goruchwylio Bydwragedd

**Rheol**

Mae'n rhaid i awdurdod goruchwylio lleol sicrhau bod:
(a) gan bob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal oruchwyliwr bydwragedd a enwir o blith y goruchwylwyr bydwragedd a benodwyd gan yr awdurdod goruchwylio lleol yn ei phrif ardal ymarfer ddaearyddol;
(b) goruchwyliwr bydwragedd yn cwrdd â phob bydwraig y mae'n oruchwyliwr bydwragedd a enwir ar ei chyfer, o leiaf unwaith y flwyddyn, i adolygu ymarfer y fydwraig a nodi ei hanghenion addysg;
(c) pob goruchwyliwr bydwragedd yn ei ardal yn cynnal cofnodion o'u gweithgareddau goruchwylio, gan gynnwys unrhyw gyfarfod gyda bydwraig;
(d) gan bob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal fynediad 24 awr at oruchwyliwr bydwragedd naill ai goruchwyliwr bydwragedd a enwir y fydwraig neu oruchwyliwr bydwragedd arall.

**Safonau'r AGLI**

1 Mae'n rhaid i awdurdod goruchwylio lleol:
- 1.1 Sicrhau bod fframwaith lleol yn bodoli i ddarparu:
  - 1.1.1 Goruchwyliaeth gyfartal, effeithiol i bob bydwraig sy'n gweithio yn yr awdurdod goruchwylio lleol.
  - 1.1.2 Cefnogaeth i fydwragedd dan hyfforddiant i'w gallu i gael mynediad at oruchwyliwr bydwragedd.
- 1.2 Sicrhau bod y gymhareb goruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yn adlewyrchu'r angen a'r amgylchiadau lleol ac nad yw'n cyfaddawdu diogelwch menywod. Ni fydd y gymhareb hon fel arfer yn fwy nac 1:15.
- 1.3 Rhoi strategaeth ar waith a fydd yn galluogi cyfathrebu effeithiol rhwng pob goruchwyliwr bydwragedd. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu gyda goruchwylwyr mewn awdurdodau goruchwylio lleol eraill.
- 1.4 Monitro a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i alluogi goruchwylwyr bydwragedd i gyflawni eu rôl.
- 1.5 Cyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb yn y ffordd mae goruchwylwyr bydwragedd yn eu hardal yn adolygu arfer bydwraig yn flynyddol. Mae'n rhaid i'r canllawiau hyn gynnwys y gofyniad i'r goruchwyliwr gynnal asesiad o gydymffurfiaeth y fydwraig â'r gofynion i gynnal cofrestr bydwreigiaeth.
- 1.6 Sicrhau bod systemau ar gael yn lleol i alluogi goruchwylwyr bydwragedd i gynnal a storio cofnodion o'u holl weithgareddau goruchwylio yn ddiogel.

| Disgwyliadau'r AGLI | Tystiolaeth a Chanfyddiadau'r Archwiliad |
|---|---|
| Mae fframwaith lleol ar gyfer goruchwylio.<br><br>Mae'n rhaid bod gan fydwragedd dan hyfforddiant fynediad at Oruchwylwyr Bydwragedd a dylai bod systemau lleol ar gyfer hyn.<br><br>Mae'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwragedd yn parhau o fewn y gymhareb a argymhellir o un Goruchwyliwr Bydwragedd i 15 bydwraig.<br><br>Dylid adolygu'r adnoddau ar gyfer goruchwylio ym mhob cyfarfod Goruchwylwyr Bydwragedd. | Mae Goruchwyliwr Bydwragedd ar gael 24 awr y dydd drwy system ar alwad. Mae'r manylion cyswllt ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd clinigol i fydwragedd ac mae'r broses ar sut i gysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd ar gael ar wefan y bwrdd iechyd.<br><br>Roedd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu dangos tystiolaeth o 75% o bresenoldeb yng nghyfarfodydd lleol Goruchwylwyr Bydwragedd ar draws y tîm.<br><br>Mae gan bob bydwraig oruchwyliwr bydwragedd a enwir a gwelwyd |

| | |
|---|---|
| Mae adolygiadau blynyddol yn seiliedig ar bolisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU.<br><br>Datblygwyd systemau lleol i sicrhau bod gan Oruchwylwyr Bydwragedd systemau storio diogel ar gyfer unrhyw gofnodion goruchwylio. | tystiolaeth o hyn ar gronfa ddata yr AGLl.<br><br>Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn gysylltiedig ag addysgu bydwragedd dan hyfforddiant am oruchwyliaeth yn yr ardal glinigol ac yn y Brifysgol. Mae bydwragedd dan hyfforddiant yn ymwybodol o sut i gysylltu â'u Goruchwyliwr Bydwragedd eu hunain a'r Goruchwyliwr Bydwragedd ar alwad os bydd angen.<br><br>Mae'r gymhareb gyffredinol o Oruchwyliwr Bydwragedd i fydwragedd yn un i 11 sydd o fewn y gymhareb a argymhellir.<br><br>Cynhelir pob adolygiad blynyddol yn unol â Pholisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU a chadarnhawyd hyn gan hap-wiriad a gynhaliwyd cyn yr archwiliad o gronfa ddata yr AGLl.<br><br>Mae cofnodion goruchwylio yn cael eu storio yn ddiogel fel copi meddal ar gronfa ddata yr AGLl neu ar system i-share Llywodraeth Cymru. Mae copïau papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau storio dan glo. |

**Arfer Nodedig**

- **Cydymffurfiaeth o 100%**
- **Datblygu gwaith partneriaeth gyda Phrifysgol De Cymru**

**Meysydd i'w gwella**

- **Bydd Goruchwyliwr Bydwragedd yn gadael y tîm yn y dyfodol agos a bydd angen llenwi oriau swydd wag y Goruchwyliwr Bydwragedd**
- **Mae angen cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan y bwrdd iechyd i fenywod ar anghenion goruchwyliaeth**
- **Mae angen cynghori'r switsfwrdd ar frys o rif ffôn ar alwad Cymru gyfan**

**Canlyniad**

**Cyflawnwyd Rheol 9**

| Rheol 10 Cyhoeddi Gweithdrefnau Awdurdod Goruchwylio Lleol | |
|---|---|
| **Rheol**<br>Mae'n rhaid i bob awdurdod goruchwylio lleol gyhoeddi ei weithdrefn ar gyfer:<br>(a) cofnodi pob digwyddiad andwyol sy'n gysylltiedig ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwragedd sy'n ymarfer yn ei ardal;<br>(b) ymchwilio i unrhyw adroddiadau a wneir o dan baragraff (a);<br>(c) delio â chwynion neu honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn ei swyddog bydwreigiaeth neu oruchwylwyr bydwragedd yn ei ardal.<br><br>**Cofnodi digwyddiadau andwyol, cwynion neu bryderon ynglŷn â safon ymarfer bydwreigiaeth yr AGLl**<br>1 Mae'n rhaid i awdurdodau goruchwylio lleol ddatblygu system gyda chyflogwyr bydwragedd a bydwragedd hunangyflogedig i sicrhau bod swyddog bydwreigiaeth awdurdod goruchwylio lleol yn cael ei hysbysu ynghylch pob digwyddiad andwyol, cwynion neu bryderon ynglŷn ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwraig.<br><br>**Ymchwiliadau goruchwylio**<br>**Safon yr AGLl**<br>1 Mae'n rhaid i awdurdodau goruchwylio lleol gyhoeddi canllawiau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau, cwynion neu bryderon ynglŷn ag ymarfer bydwreigiaeth neu honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer yn erbyn bydwraig. Mae'n rhaid i'r canllawiau hyn:<br>1.1 Ddarparu dull agored, tryloyw, teg ac amserol, sy'n dangos prosesau cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau, sy'n gallu gwrthsefyll archwiliad allanol.<br>1.2 Darparu cyfle i'r fydwraig gymryd rhan yn yr ymchwiliad.<br>1.3 Nodi'r camau gweithredu gofynnol a'r canlyniadau posibl yn dilyn ymchwiliad.<br>1.4 Darparu ar gyfer proses apelio. | |
| **Disgwyliad yr AGLl** | **Tystiolaeth a Chanfyddiadau'r Archwiliad** |
| Dylid bod cofnod o bob ymchwiliad sy'n cael ei gynnal waeth beth yw'r canlyniadau a'r amser a gymerwyd i'w cwblhau. Dylid bod tystiolaeth o adolygiad rheolaidd o'r ymchwiliadau ac unrhyw themâu sy'n codi mewn ymarfer bydwreigiaeth.<br><br>Dylai argymhellion am y gwasanaeth sy'n deillio o ymchwiliadau gael eu huwchgyfeirio i'r cyflogwyr a'u monitro gan y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd.<br><br>Mae tystiolaeth o adolygiad systematig o ymarfer bydwreigiaeth pan fydd angen.<br><br>Dylid bod cyswllt effeithiol, agored a rennir rhwng goruchwyliaeth a llywodraethu clinigol. | Mae ymchwiliadau goruchwylio yn cael eu cynnal mewn byrddau iechyd allanol er mwyn lleihau rhagfarn a sicrhau'r gefnogaeth leol fwyaf ar gyfer y fydwraig. Mae'r tîm yn sicrhau cydymffurfiaeth ym mhob agwedd ac eithrio amseroldeb.<br><br>Yn y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd tri ymchwiliad gan y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ond dim ond un a gwblhawyd o fewn yr amserlen o 60 diwrnod a argymhellir.<br><br>Mae system gadarn ar waith ar gyfer olrhain ymchwiliadau sy'n cael ei defnyddio'n gyson gan bob Goruchwyliwr Bydwragedd.<br><br>Trafodir canfyddiadau ymchwiliadau yng nghyfarfodydd y Goruchwylwyr Bydwragedd er mwyn gallu nodi tueddiadau ac i unrhyw beth a ddysgwyd gael ei weithredu drwy newid arfer a |

| | |
|---|---|
| | chynllunio gweithredoedd.<br><br>Mae rheolwyr yn ymchwilio ymhellach i unrhyw argymhellion sefydliadol sy'n deillio o ymchwiliadau goruchwylio.<br><br>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn mynychu ac yn cyfrannu at y cyfarfodydd llywodraethu mamolaeth, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r grŵp polisi. Fodd bynnag, nid oes gan Oruchwylwyr Bydwragedd fynediad uniongyrchol at adroddiadau Datix ac felly nid ydynt hwy yn dechrau adolygiadau achosion.<br><br>Mae system effeithiol ar waith ar gyfer hysbysu Goruchwylwyr Bydwragedd ynghylch pob digwyddiad mamolaeth andwyol sy'n caniatáu adolygiad amserol, cwblhau 'offer gwneud penderfyniad' pan fydd angen a dechrau ymchwiliad goruchwylio. Mae'r AGLI yn cyfrannu yn y broses hon ac mae'n goruchwylio adroddiadau ymchwilio ac yn cytuno ar unrhyw argymhellion a wneir ar gyfer bydwragedd o ganlyniad i ymchwiliad goruchwylio. |

**Arfer Nodedig**

- **Mae'r holl ddogfennau ymchwilio ar gael yn rhydd ac yn cael eu storio'n ddiogel**

**Canlyniad**

**Mae Angen Gwella Rheol 10**

- Dylid cwblhau pob ymchwiliad goruchwylio o fewn 60 diwrnod ond cydnabyddir bod hyn yn fater ar lefel Cymru gyfan
- Dylai Goruchwylwyr Bydwragedd gael mynediad at Datix er mwyn gallu adolygu digwyddiadau ar unrhyw adeg

## 8. Canfyddiadau'r adolygydd lleyg

Cyfrannodd yr adolygydd lleyg yn llawn yn yr archwiliad, gan gynnwys:

- Trafod boddhad gyda'r gwasanaeth ac ymwybyddiaeth Goruchwylwyr

Bydwragedd a defnyddwyr gwasanaeth ar draws nifer o safleoedd o'r amgylcheddau cyn geni ac ar ôl geni.

- Arsylwi ar yr amgylcheddau clinigol cyffredinol, ac asesu gwelededd yr oruchwyliaeth mewn ardaloedd cyhoeddus.
- Cynnal ymchwil cyn yr archwiliad o'r wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd ar oruchwyliaeth ac ymwybyddiaeth y switsfwrdd o rif ar alwad Cymru gyfan.
- Gweithio gyda Goruchwyliwr Bydwragedd allanol i gynnal cyfweliadau gyda:
    - Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaethau Mamolaeth
    - Cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned
    - Bydwragedd – ystod o brofiad
    - Goruchwylwyr Bydwragedd.

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda thua deg o fenywod (a'u teuluoedd mewn rhai achosion) ar draws tri safle yn ystod y broses archwilio. Mae'r ymwybyddiaeth o fodolaeth Goruchwylwyr Bydwragedd ymysg defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i fod yn isel ac nid oedd unrhyw un o'r menywod (na'u teuluoedd) yn gyfarwydd â'u bodolaeth nac eu rôl. Fodd bynnag, pan ddisgrifiwyd y rôl iddynt, roeddent o'r farn bod y gallu i gael mynediad at Oruchwyliwr Bydwragedd yn adnodd gwerthfawr ac roedd rhai o'r menywod yn awyddus i wybod lle y gallent gael manylion cyswllt / gwybodaeth bellach. Cymysg oedd lefel boddhad y defnyddwyr gwasanaeth gyda'u gofal, gyda nifer yn datgan eu bod wedi cael gofal gwych ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Roedd y rhai a gododd faterion ynghylch eu gofal yn cyfeirio'n gyffredinol at gyfathrebu gwael a diffyg amser staff fel y prif achosion o bryder iddynt. Mewn un lleoliad, fe arsylwodd y tîm archwilio fwy nac un digwyddiad o gyfathrebu gwael a oedd yn peri pryder. Hysbyswyd y Goruchwylwyr Bydwragedd a Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI ar unwaith ynglŷn â'r digwyddiadau hyn.

Gwelsom 'fwrdd calon' ar y ward ôl-enedigol yn ysbyty Brenhinol Morgannwg, lle gwahoddir menywod a'u teuluoedd i gymryd nodyn post-it siâp calon a rhoi sylw ar unrhyw brofiadau cadarnhaol o'r gwasanaethau mamolaeth. Roedd y bwrdd yn llawn sylwadau cadarnhaol am y gofal a dderbyniwyd yn yr ysbyty, ac roedd yn enghraifft o arfer da o rannu adborth cadarnhaol gan gleifion er mwyn codi morâl ymhlith y staff.

Ar y cyfan, roedd yr amgylcheddau clinigol yn lân a thaclus, er bod rhai o'r cyfleusterau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl wedi dyddio llawer erbyn hyn. Nifer gyfyngedig o hysbysfyrddau Goruchwylio sy'n cael eu harddangos ac nid oes unrhyw wybodaeth arnynt am rôl y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynorthwyo menywod. Gwelwyd disgrifiad o'r rôl oruchwylio mewn cyfres o nodiadau llaw ond, unwaith eto, nid oedd unrhyw wybodaeth arnynt am rôl y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynorthwyo menywod.

Yn unol ag argymhellion archwiliad 2015-16, mae'r rhif ar alwad 24 awr wedi'i ychwanegu yn awr i wefan y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth am oruchwyliaeth ar y wefan yn parhau i fod yn anghyflawn. Ni allai'r adolygydd lleyg leoli disgrifiad o rôl y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynorthwyo menywod, dolen i'r AGLI na dolen i'r daflen 'Are we Delivering?'

Er gwaethaf yr argymhelliad yn archwiliad y llynedd; i 'sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhaeadru am rif ar alwad 24 awr Goruchwylwyr Bydwragedd i switsfwrdd pob

ysbyty perthnasol', ni lwyddodd cyswllt y switsfwrdd cyn yr archwiliad i ganfod y rhif ar alwad. Nid oedd gweithredwr y switsfwrdd yn ymwybodol o'r rhif ar alwad, er gwaethaf rhywfaint o gymhelliant a throsglwyddo'r alwad yn y pen draw i leoliad anhysbys na chafodd ei hateb ar ôl pum munud.

Roedd Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaeth Mamolaeth yn ymwybodol o oruchwyliaeth a chadarnhaodd bod Goruchwyliwr Bydwragedd yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Fodd bynnag, roedd o'r farn bod ymwybyddiaeth isel o hyd o oruchwyliaeth ymhlith menywod. Mae Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaeth Mamolaeth yn datblygu llwyfan electronig yn awr ar gyfer ymgysylltu â menywod a'r gobaith y bydd hyn yn galluogi i wybodaeth gael ei dosbarthu'n ehangach. Nid oedd y Cadeirydd, a oedd yn ei seithfed mis o feichiogrwydd, yn ymwybodol ei bod wedi'i hysbysu ynglŷn â goruchwyliaeth yn ystod ei beichiogrwydd, a hynny'n benodol gan fydwraig.

Ar y cyfan, roedd gan y bydwragedd a gyfwelwyd farn gadarnhaol iawn am y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd a goruchwyliaeth grŵp yn y bwrdd iechyd. Ystyriwyd bod yr oruchwyliaeth grŵp wedi'i threfnu'n dda ac yn cael ei derbyn yn dda ac roedd y rhan fwyaf o'r farn y dylai'r oruchwyliaeth barhau. Dywedodd un fydwraig a oedd wedi profi ymchwiliad, bod ei Goruchwyliwr Bydwragedd wedi bod yn gefnogol iawn drwy'r broses ac wedi'i chynorthwyo'n fawr i adfer ei harfer.

Fodd bynnag, mae morâl y staff yn ymddangos yn isel oherwydd prinder staff ar draws y bwrdd, yn bennaf oherwydd salwch tymor byr a hirdymor, sy'n arwain at rwystredigaeth a phroblemau cyfathrebu yn y gwasanaethau mamolaeth. Mae hyn yn cyd-fynd â'r adborth a dderbyniwyd gan nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Er bod pob bydwraig yn ymwybodol bod newidiadau ar fin cael eu gwneud i'r ddarpariaeth oruchwylio, ychydig iawn o ymwybyddiaeth a oedd ganddynt o fanylion y model newydd arfaethedig. Yn ogystal, nid oedd unrhyw arwydd clir o sut y byddai'r elfen eiriolaeth a gynigir i fenywod yn awr gan Oruchwylwyr Bydwragedd yn cael ei chefnogi o dan y model newydd.

Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn uned gref, ac mae wedi gweithio'n galed i sefydlu presenoldeb goruchwylio cryf a gweithredol yn y bwrdd iechyd. Maent yn weladwy i'r staff, er y gellid gwella eu gwelededd i ddefnyddwyr gwasanaeth; er enghraifft drwy gerdded o amgylch y wardiau a chyflwyno eu hunain a'u rôl i fenywod a'u teuluoedd.

## 9. Crynodeb o'r Argymhellion

| Cydymffurfiaeth â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| --- |
| Trafodwyd darparu goruchwyliaeth effeithiol gan yr AGLl ym mwrdd iechyd Prifysgol Cwm Taf gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol ei bod wedi'i sicrhau bod Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn gallu cyflawni ei swyddogaeth yn y bwrdd iechyd a bod gweithdrefn gynhwysfawr ar waith |

ar gyfer adrodd yn ôl i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn dilyn trafodaeth bellach o ran uwchraddio pryderon yr AGLl er mwyn sicrhau arfer bydwreigiaeth diogel yn y sefydliad, dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol bod yr AGLl yn effeithiol yn ei farn ef, ond ei fod yn credu'n bersonol y gallai'r adroddiadau archwilio fod yn fwy cadarn am eu bod yn fwy 'meddal' na'r adroddiadau hynny a gynhyrchwyd gan ymchwiliadau'r bwrdd iechyd. Trafodwyd rôl gefnogol goruchwyliaeth a'r rôl yn adfer bydwraig i'r safon ymarfer sy'n cael ei hargymell gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a allai gael ei hystyried yn ddull ansoddol, fwy 'meddal'.

Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth ei bod yn fodlon bod y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol yn codi pryderon yn effeithiol ac yn cyfleu eu pryderon gyda hi yn ôl yr angen. Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd misol rhwng y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd a chadarnhaodd y Pennaeth Bydwreigiaeth y byddai'r tîm yn cysylltu â hi rhwng cyfarfodydd pe byddai ganddynt unrhyw faterion i'w trafod, a bod ganddi bolisi drws agored.

Cafodd y Pennaeth Bydwreigiaeth ei sicrhau bod y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhyngweithio gyda phrosesau llywodraethu'r sefydliad a bod yr uwch fydwragedd a'r fydwraig Llywodraethu Mamolaeth yn cefnogi hyn. Awgrymodd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, fel y trafodwyd yn archwiliad 2015-16, y byddai'n fuddiol i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd gael mynediad at Datix, er mwyn sicrhau y gallant weld Datix yn ei gyfanrwydd wrth gyflwyno, yn hytrach na dim ond ar y dyddiadau adolygu sy'n cael eu pennu gan y sefydliad. Nodwyd hefyd bod gan y rhan fwyaf o dimau Goruchwylwyr Bydwragedd mewn byrddau iechyd eraill fynediad i Datix ac nad oeddent wedi profi unrhyw broblemau o ran sicrhau hynny o safbwynt TG, fel y profwyd yng Nghwm Taf yn ôl y sôn. Ystyriwyd, fodd bynnag, bod cyfarfodydd amlddisgyblaeth i adolygu Datix yn fuddiol iawn ac y byddent yn gwella prosesau llywodraethu.

Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth ei bod yn credu bod prosesau cyfathrebu digonol yn ystod y broses o ymchwilio goruchwyliaeth, a bod hyn wedi gwella dros amser a'i bod yn gallu trafod adroddiadau gyda'r Goruchwyliwr Bydwragedd sy'n cynnal ymchwiliadau.

Ni allai'r Pennaeth Bydwreigiaeth rannu'r ganran o fydwragedd sy'n gweithio yn y sefydliad sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, ond ei bod yn sicr ei bod dros 90%. Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth hefyd wedi hysbysu'r tîm archwilio bod y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol wedi cefnogi bydwragedd yn effeithiol drwy ail-ddilysiad.

Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i oruchwyliaeth am ei bod yn gynrychiolydd Prif Fydwragedd ar dasglu Cymru.

Yn dilyn ymlaen o raglen archwilio 2015-16, ceisiwyd gwybodaeth fel tystiolaeth bod y meysydd canlynol yr oedd angen eu gwella wedi derbyn sylw:

- Ymgysylltiad ffurfiol gyda bydwragedd dan hyfforddiant a dogfennaeth o dystiolaeth gysylltiedig o gyfarfodydd ar gronfa ddata'r AGLl
- Gwella cydymffurfiaeth yr Adolygiad Blynyddol Goruchwylwyr
- Gwella gwelededd clinigol y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd

- Amseroldeb wrth lwytho ffurflenni Bwriad i Ymarfer
- Mae cymorth ar gael i fydwragedd sy'n gysylltiedig â'r broses ymchwilio
- Gellir ychwanegu rhif ar alwad Cymru gyfan i wefan y bwrdd iechyd
- Mae angen rhannu'r rhif ar alwad Cymru gyfan i'r switsfyrddau perthnasol

Gwelwyd tystiolaeth bod pob un o'r meysydd hyn wedi'u gwella ar wahân i ymwybyddiaeth switsfwrdd y sefydliad o rif ffôn ar alwad Cymru gyfan. Canfu'r adolygydd lleyg nad oedd ymwybyddiaeth ac felly ni welwyd gwelliant yn y cyfnod 12 mis diwethaf.

O'r chwe Rheol a Safon Bydwragedd a archwiliwyd, cyflawnwyd pump ohonynt ac roedd angen gwella un ohonynt. Cynhaliwyd tri ymchwiliad goruchwyliol gan y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn y cyfnod 12 mis blaenorol. Dim ond un o'r tri a gwblhawyd o fewn yr amserlen a argymhellir. Cynhaliwyd trafodaethau yn ystod yr archwiliad ar y rhesymau pam nad oedd Goruchwylwyr Bydwragedd ar hyd a lled Cymru yn cyflawni'r targed 60 diwrnod ar gyfer cwblhau ymchwiliadau. Un o'r ffactorau y credir sy'n cyfrannu at hyn yw'r nifer o Oruchwylwyr Bydwragedd newydd sydd wedi dechrau ymarfer ac sydd angen cymorth ychwanegol yn sgil hynny i ddatblygu adroddiadau i'r safon uchel ofynnol. Ystyrir bod yr oedi wrth dderbyn offer TG, gan gynnwys gliniaduron, hefyd wedi effeithio ar amseroldeb cwblhau adroddiadau gan Oruchwylwyr Bydwragedd sydd wedi dechrau ymarfer, oherwydd bod angen iddynt deithio i swyddfeydd Llywodraeth Cymru i gael mynediad at ddogfennaeth ymchwilio. Mae'r oedi wrth ddyrannu gliniaduron a'r oedi posibl wrth gwblhau ymchwiliad wedi'i uwchgyfeirio i AGIC fel risg. Mae dwy o'r tair Goruchwyliwr Bydwragedd yng Nghwm Taf wedi camu i fyny yn y 12 mis blaenorol ac felly mae'r rhesymau hyn wedi'u hystyried ar gyfer eu perfformiad.

## Arfer Bydwreigiaeth

Dywedodd y chwe menyw a gyfwelwyd wrth dîm archwilio'r AGLI fod cyfathrebu wedi effeithio ar eu darpariaeth gofal. Dywedodd y menywod fod y bydwragedd wedi bod yn rhy brysur i siarad â'r menywod a phan gawsant gyfle i siarad â hwy roeddent ar frys a'r cymorth lleiaf a gynigiwyd iddynt. Hefyd, bu i'r tîm archwilio dystio a phrofi achosion o gyfathrebu gwael, a hysbyswyd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn eu cylch. Roedd rhai o'r bydwragedd ar y safleoedd gwahanol yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr archwiliad hefyd wedi mynegi pryderon ynglŷn â morâl isel y saff. Eglurodd rhai aelodau o staff mai'r rheswm am hyn oedd bod bydwragedd cymunedol wedi'u hadleoli i'r ysbyty am gyfnodau hir yn ystod achosion o uwchgyfeirio. Cafodd y staff eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i fonitro eu haddasrwydd eu hunain i ymarfer ac i roi gwybod i'r rheolwr bydwreigiaeth priodol os nad oeddent yn addas i weithio am unrhyw reswm.

Roedd bydwragedd eraill o'r farn mai lefelau staffio gwael oedd yn gyfrifol am forâl isel y staff a chafodd y bydwragedd eu hysbysu gan y tîm archwilio, ar gais y Pennaeth Bydwreigiaeth, y byddai ymarfer 'Birthrate Plus' yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2016.

| |
|---|
| Mae'r AGLI wedi hysbysu'r Pennaeth Bydwreigiaeth ynghylch y pryderon hyn, oherwydd gallai morâl effeithio ar berfformiad ac ymarfer bydwreigiaeth. |
| **Sefydliadol** |
| Dywedodd nifer o fenywod a gyfwelwyd fel rhan o archwiliad yr AGLI mai staffio is na'r safon dderbyniol oedd un o'r rhesymau am gyfathrebu gwael gan y staff bydwreigiaeth a meddygol. Dywedodd y Pennaeth Bydwreigiaeth wrth y tîm archwilio y byddai ymarfer staffio 'Birthrate Plus' yn cael ei gynnal y mis dilynol a'i bod wedi ysgrifennu at bob aelod o staff yn eu hysbysu am hyn.<br><br>Yn anffodus, nid oedd y bydwragedd a oedd wedi mynegi pryderon ynglŷn â materion staffio yn ymwybodol o'r wybodaeth hon pan gawsant eu hysbysu gan y tîm archwilio, ond cafodd y wybodaeth ei chroesawu ganddynt. |

## 10. Monitro

Mae angen cyflwyno cynllun gweithredu i'r AGLI o fewn chwe wythnos o dderbyn yr adroddiad a'r argymhellion hyn. Os bydd unrhyw feysydd 'nad ydynt wedi'u cyflawni' bydd angen diweddaru'r cynllun gweithredu ar gyfer y rhain yn chwarterol a'u cyflwyno i'r AGLI er mwyn diweddaru'r cynnydd. Ar ôl dileu'r statud arfaethedig ar gyfer Mawrth 2017 bydd y gwaith o fonitro'r cynllun gweithredu yn cael ei drosglwyddo i'r Pennaeth Bydwreigiaeth yng Nghwm Taf.

Nodwyd y canlynol fel meysydd o arfer da gan dîm archwilio'r AGLI:

- Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cydgrynhoi yn dda ac yn gweithredu'n effeithiol
- Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cynyddu eu gweledledd yn yr ardaloedd clinigol
- Gwaith partneriaeth gyda Choleg Brenhinol y Bydwragedd i addysgu a diweddaru bydwragedd
- Gwaith partneriaeth gyda Phrifysgol De Cymru i i sefydlu sesiynau addysgu ffurfiol gyda bydwragedd dan hyfforddiant
- Trefniadau gwell a phresenoldeb mewn sesiynau goruchwylio grŵp
- Parhau i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaethau Mamolaeth
- Cyfarfodydd gwell gyda bydwragedd? Sydd newydd gymhwyso
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r tîm diogelu i wella materion hysbysiadau genedigaethau ar gyfer achosion o enedigaethau heb gymorth meddygol.

Mae'r argymhellion canlynol wedi'u nodi gan dîm archwilio'r AGLI fel meysydd i'w gwella:

- Er bod gwelededd clinigol y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cynyddu, mae hyn yn galw am welliannau parhaus a bydd yn galluogi Goruchwylwyr Bydwragedd i gefnogi bydwragedd tra bod lefelau isel o forâl yn ôl pob sôn
- Byddai sicrhau mynediad i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd i Datix yn gwella prosesau llywodraethu
- Dylid sicrhau bod mwy o fyrddau goruchwylio ar gael mewn ardaloedd clinigol er mwyn sicrhau bod menywod yn derbyn y wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer cymorth
- Mae'n rhaid hysbysu'r switsfwrdd o rif ffôn ar alwad Cymru Gyfan, fel blaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod cymorth 24 awr ar gael i fenywod a bydwragedd
- Mae angen diweddaru gwefan y bwrdd iechyd i gynnwys dolenni i wefan AGIC a'r daflen 'Are we delivering?'. Mae angen i'r wefan ganolbwyntio mwy nac ar y fenyw yn unig
- Goruchwylwyr Bydwragedd i gefnogi'r broses o ddosbarthu gwybodaeth ar gyfer yr ymarfer Birthrate Plus a fydd yn cael ei gynnal er mwyn gwella morâl
- Y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd i ddosbarthu gwybodaeth am y model goruchwylio newydd wrth iddo ddod ar gael.

## 11. Casgliad

Mae'r AGLI yn parhau i fod yn ddiolchgar i bob Goruchwyliwr Bydwragedd yn awr ac yn y gorffennol am eu mewnbwn a'u hymroddiad i ddarparu goruchwyliaeth statudol a'u cyfraniad yn cefnogi bydwragedd i gynorthwyo menywod.

Hoffai'r AGLl ddiolch hefyd i Sue Jose, sy'n camu i lawr o'i swydd fel Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl ym mis Hydref 2016 a hoffwn groesawu Lindsey Hilldrup a fydd yn dechrau yn y swydd hon.

Heb amheuaeth, yr her fwyaf wrth ddarparu goruchwyliaeth statudol ar draws y DU yn y 12 mis diwethaf yw cynnal momentwm ac ymrwymiad i'r rôl wrth i newidiadau deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ddod i rym. Fodd bynnag, mae'r AGLl a'r Tasglu yng Nghymru yn parhau i fod mewn sefyllfa i arwain y ffordd ymlaen gyda model goruchwylio newydd, adeiladu ar y llwyddiannau presennol a chefnogaeth genedlaethol i gynnal rhagoriaeth mewn arfer clinigol.

# 12. Atodiadau

## 12.1 Atodiad 1 – Rhaglen

**AGLl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

## 1.1 Rhaglen Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad:** 13 ac 14 Medi 2016
**Lleoliad:** Diwrnod un: Ysbyty'r Tywysog Siarl
Diwrnod dau: Bore: Clinig Cyn-geni Ysbyty Cwm Rhondda
Prynhawn: Ysbyty Brenhinol Morgannwg

**Tîm Adolygu yr AGLl:**
Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol: Moe Wolfe.
Goruchwyliwr Bydwragedd: Julie Hurford Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Goruchwyliwr Bydwragedd: Wendy Roberts Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Adolygydd lleyg: Lindsey Phillips
Cymorth tîm: Sadie Silcox

| | | **Diwrnod Un** |
|---|---|---|
| **Amser** | | **Gweithgarwch** |
| **09:00** | 15 munud | **Croeso a Choffi Dosbarth 2, Y Ganolfan Ddysgu, Ysbyty'r Tywysog Siarl** |
| **09:15** | 30 munud | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLl<br><br>Cyflwyniad gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl ar ddiben proses archwilio goruchwyliaeth 2016-17 a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol yn ôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio<br>Pennaeth Bydwreigiaeth ac Uwch Fydwragedd<br>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth/Rheolwr cynorthwyol y Gyfarwyddiaeth<br>Arweinwyr Llywodraethu/Risgiau y Bwrdd Iechyd a Mamolaeth<br>Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaethau Mamolaeth<br>Cyswllt y CIC ar gyfer gwasanaethau mamolaeth<br>Cynrychiolwyr y Gweithle<br>Bydwragedd Band 7 |

| | | |
|---|---|---|
| **9:45** | 30 munud | Cyflwyniad trosolwg 15 munud a bwrdd stori gan Oruchwylwyr Bydwragedd lleol i gynnwys:<br><br>1. Crynodeb o gynnydd wrth gyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2016-2017<br>2. Enghreifftiau o Arfer Da a chyflawniadau'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol<br>3. Enghreifftiau o ddysgu'r gwersi / cau'r bwlch mewn ymchwiliadau goruchwylio<br>4. Cau'r bwlch rhwng goruchwyliaeth statudol a modelau goruchwyliaeth newydd<br><br>15 munud o gwestiynau |
| **10:15** | 30 munud | **Toriad: Y Tîm Archwilio i symud i fae 4 Ward 21** |
| **10:45** | 2 awr | Cyfarfodydd 30 munud gyda'r tîm adolygu:<br><br>Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI a'r Goruchwyliwr Bydwragedd<br><br>10:45: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio - Mr Jason Roberts<br>11:15: Pennaeth Bydwreigiaeth - Mrs R Fielding<br>11:45: Arweinwyr Llywodraethu / Risg y Bwrdd Iechyd a Mamolaeth - Myfanwy Ellis<br>12:15: Uwch Fydwragedd – Eirlys Ferris, Dawn Davies, Zoe Ashman<br><br>Adolygydd Lleyg a'r Goruchwyliwr Bydwragedd<br>10:45: Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaethau Mamolaeth – Berry<br>11:15: Cyswllt CIC ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth – Lynne Southway<br>11:45: Cynrychiolydd y Gweithle Coleg Brenhinol y Bydwragedd<br>12:15: Bydwragedd Band 7 |
| **12:45** | 30 munud | **Cinio, Bae 4 ward 21 Ysbyty'r Tywysog Siarl** |
| **13:15** | 30 munud | Cyfweliad gyda'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol |
| **13:45** | 1 awr 15 munud | Taith o amgylch yr uned famolaeth i ddilysu tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol; cwrdd â defnyddwyr gwasanaeth, bydwragedd a bydwragedd dan hyfforddiant (Pob ardal). |
| **15:00** | 30 munud | Trafodaeth y tîm adolygu a chrynodeb o Ddiwrnod 1 |
| **15:30** | | **Diwedd diwrnod 1** |

| | | |
|---|---|---|
| **Diwrnod Dau: Dydd Mercher 14eg Medi**<br>**Ysbyty Cwm, Clinig Cyn-geni Y Rhondda** | | |
| **09:15** | 15 munud | Croeso a choffi |
| **09:30** | 30 munud | Y tîm archwilio i gwrdd â Bydwragedd Cymunedol a staff y clinig cyn-geni |
| **10:00** | 40 munud | Taith o’r clinig cyn-geni<br>Y tîm archwilio i gwrdd â menywod yn y clinig cyn-geni |
| **10:40** | 25 munud | Teithio i Ysbyty Brenhinol Morgannwg |
| **11:05** | 60 munud | Y tîm archwilio i gwrdd â defnyddwyr gwasanaeth yn ystod taith o amgylch yr uned |
| **12:05** | 45 munud | **Cinio i’r tîm archwilio yn swyddfa’r Pennaeth Bydwreigiaeth ward 10** |
| **12:50** | 30 munud | Y tîm archwilio i gwrdd â bydwragedd dan hyfforddiant |
| **13:20** | 30 munud | Y tîm archwilio yn cwrdd â Bydwragedd |
| **13:50** | 40 munud | Tîm Adolygu’r AGLI i grynhoi eu canfyddiadau a pharatoi’r wybodaeth ar gyfer adroddiad |
| **14:30** | 30 munud | Y tîm archwilio i ddarparu adborth cychwynnol i’r Pennaeth Bydwreigiaeth, yr uwch fydwragedd a’r Goruchwylwyr Bydwragedd |
| **15:00** | | **Diwedd diwrnod 2** |

## 12.2 Atodiad 2 – Holiadur yr AGLl

### AGLl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

### 1.2 Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

Hydref 2016

| Cyfweliad Goruchwyliwr Bydwragedd | Tystiolaeth a sylw'r tîm Adolygu |
|---|---|
| Rheol 4.<br>Hysbysiadau gan yr AGLl<br>A ydych chi'n rheoli'r broses Bwriad i Ymarfer yn unol â'r broses gyfredol | Tystiolaeth:<br>Dechreuwyr newydd<br>Ymadawyr<br>trosglwyddiadau<br>Dirymu Bwriad i Ymarfer<br>Cronfa ddata'r AGLl – cyflwyniad misol |
| Ymateb | Sylw: |
| Rheol 5<br>Cwmpas ymarfer<br>Sut ydych chi'n cefnogi bydwragedd i gyflawni Rheol 5; eu cwmpas ymarfer | Tystiolaeth<br>Goruchwyliaeth grŵp<br>Cefnogi bydwragedd i ddarparu dewis i fenywod<br>Cefnogi bydwragedd gyda Rhaglen Ymarfer yr AGLl/ALl/adlewyrchiad<br>Bwrdd arddangos<br>Bydwragedd mewn rolau nad ydynt yn rhai bydwreigiaeth |

| | |
|---|---|
| Ymateb | Sylw |
| Rheol 6 Cofnodion<br>Allwch chi ddisgrifio eich cynllun i drosglwyddo a/neu archifo cofnodion i baratoi ar gyfer cael gwared ar oruchwyliaeth statudol. | Tystiolaeth<br>Mae cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel<br>Mae'r cofnodion yn cael eu paratoi i'w trosglwyddo/sganio a'u llwytho |
| Ymateb | Sylw |
| Rheol 7<br>Mae cyswllt agos rhwng goruchwylio bydwragedd a llywodraethu clinigol a dylai fod yn elfen hanfodol o brosesau llywodraethu yn yr AGLI. Allwch chi ddarparu manylion o sut yr ydych yn cyflawni'r safon hon | Tystiolaeth<br>Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Model Ymateb Clinigol, LWF, adolygu Datix, cyd-ymchwiliadau<br>Adolygiadau Straen anymataliaeth wrinol, darparu hyfforddiant gorfodol |
| Ymateb | Sylw |
| Rheol 7 - llywodraethu<br>Ydych chi'n teimlo y gallwch uwchgyfeirio pryderon i:<br>Y sefydliad<br>Yr AGLI<br>Ydych chi'n teimlo bod eich pryderon yn derbyn yr ymateb priodol | Tystiolaeth |
| Ymateb | Sylw |
| Rheol 9<br>Sut ydych chi'n sicrhau mynediad i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ar gyfer Bydwragedd dan hyfforddiant<br>A sut ydych chi'n cefnogi'r trosglwyddiad o fyfyriwr i gofrestrai | |
| Ymateb | Sylw |
| Rheol 10 | Tystiolaeth; |

| | |
|---|---|
| Cyhoeddi ymchwiliadau i weithdrefnau-goruchwyliaeth<br>Ydych chi'n credu eich bod wedi paratoi o ran addysg a hyfforddiant er mwyn gallu cynnal ymchwiliadau yn unol â rheol 10 | Proses<br>Ysgrifennu adroddiadau<br>Mynediad at Hyfforddiant<br>Mynediad at systemau TG |
| Ymateb | Sylw |
| **Cyfweliad Pennaeth Bydwreigiaeth** | |
| Ydych chi'n credu bod eich timau goruchwylwyr bydwragedd yn codi pryderon yn briodol?<br>Os nad ydynt, allwch chi awgrymu sut y gellid gwella hyn? | |
| Ymateb | Sylw |
| Wrth ystyried proses ymchwilio'r AGLI, pa mor fodlon ydych chi gyda;<br>• Dulliau cyfathrebu'r Goruchwyliwr Bydwragedd sy'n cynnal yr ymchwiliad<br>• Y dulliau cyfathrebu gyda'r Goruchwyliwr Bydwragedd a enwir/cefnogol<br>• Y cysylltiadau rhwng prosesau'r AGLI a phrosesau'r sefydliad | |
| Ymateb | Sylw |
| Ydych chi'n derbyn gwybodaeth am themâu a thueddiadau sy'n datblygu mewn sesiynau goruchwylio grŵp? | |
| Ymateb | Sylw |
| Ydych chi'n fodlon bod y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhyngweithio'n effeithiol gyda phroses lywodraethu'r sefydliad? | |
| Ymateb | Sylw |
| Beth yw'r lefel gydymffurfio bresennol i fydwragedd sy'n mynychu hyfforddiant gorfodol? | |
| Ymateb | Sylw |

| | |
|---|---|
| Sut mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cefnogi ail-ddilysiad bydwragedd yn eich sefydliad | |
| Ymateb | Sylw |
| Pa broblemau ydych chi'n credu sy'n bodoli i'r Bwrdd Iechyd yn ystod y trosglwyddiad o oruchwyliaeth statudol i fodel goruchwylio (Bwrdd Iechyd) wedi'i arwain gan y cyflogwr. | |
| Ymateb | Sylw |
| A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwragedd yn eich sefydliad? | |
| Ymateb | Sylw |
| **Cyfweliad y Cyfarwyddwr Nyrsio** | |
| A ydych chi'n fodlon bod gan yr AGLI weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer adrodd i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu ynghylch pob risg sy'n gysylltiedig ag adroddiadau andwyol o'r gwaith monitro allanol? | Rheol 7<br>Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI |
| Ymateb | Sylw |
| Allwch chi gadarnhau bod Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn gallu cyflawni eu swyddogaeth yn eich sefydliad? | |
| Ymateb | Sylw |
| Ydych chi'n fodlon â chynaliadwyedd y model goruchwylio presennol yn eich Bwrdd Iechyd | |
| Ymateb | Sylw |
| Ydych chi o'r farn bod yr AGLI yn codi ac yn uwchraddio pryderon yn effeithiol ac yn arfer ei rôl yn effeithlon, effeithiol ac mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch ymarfer bydwreigiaeth yn eich sefydliad? | |
| Ymateb | Sylw |

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n fodlon â chynaliadwyedd y model goruchwylio presennol yn eich Bwrdd Iechyd | |
| Ymateb | Sylw |
| Pa broblemau ydych chi'n credu sy'n bodoli i'r Bwrdd Iechyd yn ystod y trosglwyddiad o oruchwyliaeth statudol i fodel goruchwylio (Bwrdd Iechyd) wedi'i arwain gan y cyflogwr. | |
| Ymateb | Sylw |
| A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwragedd yn eich sefydliad ar ôl cael gwared â goruchwyliaeth statudol? | |
| Ymateb | Sylw |
| **Bydwragedd ac Uwch Fydwragedd** | |
| A yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn weladwy yn yr amgylchedd clinigol? A ydych yn gwybod lle yn y Bwrdd Iechyd y gallai Goruchwyliwr Bydwragedd fod yn bresennol? Sut fyddech chi'n cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd y tu allan i oriau arferol | |
| Ymateb | Sylw |
| Ydych chi'n ymwybodol sut mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn cefnogi ail-ddilysiad? | |
| Ymateb | Sylw |
| Ydych chi'n ymwybodol o sut mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyd-fynd â phroses lywodraethu'r Bwrdd Iechyd? | |
| Ymateb | Sylw |
| Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r newidiadau arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel goruchwylio wedi'i arwain gan y cyflogwr (Bwrdd Iechyd)_ | |

| | |
|---|---|
| Ymateb | Sylw |
| Pa broblemau ydych chi'n credu sy'n bodoli i'r Bwrdd Iechyd yn ystod y trosglwyddiad o oruchwyliaeth statudol i fodel goruchwylio (Bwrdd Iechyd) wedi'i arwain gan y cyflogwr. | |
| Ymateb | Sylw |
| A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ansawdd Goruchwylwyr Bydwragedd yn eich sefydliad ar ôl cael gwared â goruchwyliaeth statudol? | |
| Ymateb | Sylw |
| | |
| **Bydwragedd dan Hyfforddiant** | |
| Allwch chi ddisgrifio rôl Goruchwyliwr Bydwragedd a'r AGLI? | |
| Ymateb | Sylw |
| Ydych chi wedi cael cyswllt gyda Goruchwylir Bydwragedd yn y 12 mis diwethaf?  O ydych, am ba reswm? | |
| Ymateb | Sylw |
| Ydych chi'n gwybod sut i gysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd? | |
| Ymateb | Sylw |
| Ydych chi'n ymwybodol o'r gofyniad statudol presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob bydwraig gael Goruchwyliwr Bydwraig penodedig? | |

| | |
|---|---|
| Ymateb | Sylw |
| Beth yw eich dealltwriaeth chi o’r newidiadau arfaethedig o oruchwyliaeth statudol i fodel goruchwylio sy’n cael ei arwain gan y cyflogwr (Bwrdd Iechyd)? | |
| Ymateb | Sylw |

**Rhestr wirio adolygwyr lleyg ar gyfer ymweliadau archwilio**

Bwriad y ddogfen hon yw galluogi adolygwyr lleyg i gynnal eu hymweliadau archwilio mewn ffordd sy’n gyson yn y tîm ac sy’n adlewyrchu ac yn adeiladu ar ganfyddiadau archwiliad 2015/16 ac ymgorffori’r newidiadau hysbys yn y dyfodol i’r gweithdrefnau goruchwylio bydwragedd. Er bod y rhestr wirio hon yn cynnwys nifer o feysydd, disgwylir i’r adolygwyr lleyg roi sylwadau hefyd ar unrhyw beth arwyddocaol y maent yn credu y dylent eu hamlygu, yn ogystal â chynnwys y rhestr wirio hon.

Mae saith adran i’r rhestr wirio hon:
Paratoadau cyn archwiliad
Cwestiynau i fenywod a’u teuluoedd
Cwestiynau i Fydwragedd
Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd
Cwestiynau i Uwch Reolwyr
Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr
Arsylwadau ar yr amgylchedd

**Paratoadau cyn archwiliad**

Adolygu’r wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd am Oruchwylio Bydwragedd.

Ai hwn yw’r rhif ar alwad cywir?

A oes disgrifiad clir o'r hyn y gall goruchwylwyr ei wneud ar gyfer menywod?

A oes dolen i safle'r AGLI (AGIC)?

A oes dolen i'r daflen "Delivering for you"?

Dewiswch ar hap un o'r lleoliadau sy'n darparu gwasanaethau mamolaeth gan y bwrdd iechyd a ffoniwch y switsfwrdd a gofyn am y rhif ar alwad ar gyfer y goruchwyliwr bydwragedd.

A roddwyd y rhif ar alwad cywir i chi?

**Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd**

Cyflwyno ein hunain ac esbonio'r broses archwilio.

1. Beth yw eich barn am y gofal a gawsoch gan fydwragedd drwy eich beichiogrwydd a'r enedigaeth?

2. A oes bydwraig a fu o gymorth mawr i chi a beth wnaeth ef / hi a oedd o gymorth penodol i chi?
   Os rhoddir enw'r fydwraig, a allwn ni roi'r adborth hwn iddi / iddo?

3. A oes unrhyw beth yr hoffech ei newid, ar sail eich profiad chi?

4. A oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn ag unrhyw fydwragedd yr ydych wedi dod i gyswllt â hwy?

**Os yw'r ateb** i 4 yn **oes** ewch i gwestiwn 4a – 4h, os yw'r ateb yn **na** ewch i C5

4a Ydych chi wedi trafod eich pryderon gydag unrhyw un? Os yw'r ateb yn **na, ewch i 4e**
4b Os ydych chi, gyda phwy?
4c Sut wnaethoch chi benderfynu trafod eich pryder gyda'r unigolyn hwn?
4d A oeddech chi'n fodlon â'r canlyniad?

Os oedd gennych bryderon ond ni wnaethoch eu trafod gydag unrhyw un

4e A oeddech chi eisiau trafod eich pryder?
4f Beth wnaeth eich atal rhag dweud wrth rywun am eich pryder?

4g Ydych chi wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwragedd?
4h Esboniwch y rôl: a hoffech chi siarad gyda Goruchwyliwr Bydwragedd yn awr am eich profiad?

5. Dychmygwch fod gennych un pryder er enghraifft, roeddech am gael math penodol o gynllun geni ac roedd y fydwraig yn gwrthod ei drafod neu'n ei drafod yn negyddol iawn, beth fyddech chi wedi'i wneud?

6.Pe byddech wedi trafod eich pryder gyda rhywun, beth fyddech chi'n dymuno iddynt ei wneud amdano?

**Cwestiynau i Fydwragedd**

Ydych chi wedi cael eich Adolygiad Goruchwylio Blynyddol yn y 12 mis diwethaf?

A gwblhawyd eich Adolygiad Goruchwylio Blynyddol yn ystod sesiwn goruchwylio grŵp?

Os felly, faint ohonoch oedd yn rhan o'ch goruchwyliaeth grŵp?
A oedd ystod o fydwragedd yn y sesiwn goruchwylio?

Beth yn eich barn chi oedd yn ddefnyddiol yn y sesiwn goruchwyliaeth grŵp?

A oedd unrhyw beth a allai fod wedi'i wneud yn well?

Sawl sesiwn goruchwylio grŵp ydych chi wedi'u mynychu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf?

Ydych chi'n teimlo'n fwy neu'n llai positif am oruchwyliaeth grŵp nawr o gymharu â'ch profiad cyntaf o oruchwyliaeth grŵp?

Beth yn eich barn chi yw'r budd mwyaf o gyflwyno goruchwyliaeth grŵp?

Ydych chi wedi defnyddio rhif ar alwad Goruchwylwyr Bydwragedd i gysylltu â Goruchwyliwr yn y 6 mis diwethaf?
Os ydych chi, beth yw eich barn am y profiad? A wnaeth ddatrys y broblem ar y pryd?

Fel y gwyddoch, mae goruchwyliaeth yn newid yn y Gwanwyn. Pa elfennau o'r oruchwyliaeth bresennol yr hoffech chi eu gweld yn cael eu cadw?

A oes unrhyw beth yr hoffech i'r ddarpariaeth oruchwyliaeth ei wneud nad yw'n ei wneud ar hyn o bryd?

A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r model goruchwylio newydd arfaethedig a fydd yn cael ei arwain gan y cyflogwr?

Pa mor dda ydych chi'n credu y mae'r paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd?

A oes unrhyw beth mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud sy'n arfer da arbennig o dda?
Allwn ni drosglwyddo eich adborth i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd?

Pa rôl ydych chi'n credu y bydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei gwneud i helpu i leihau risgiau a dysgu gwersi o ymchwiliadau?

**Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd**

Pryd ydych chi'n cynnig goruchwyliaeth grŵp?

Beth ydych chi'n credu yw manteision goruchwyliaeth grŵp?

A fyddech chi'n newid unrhyw beth?

Allwch chi roi enghraifft o rywbeth a drafodwyd mewn sesiwn goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella diogelwch y cyhoedd o ganlyniad i hynny?

A oes unrhyw beth mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud sy'n arfer da arbennig o dda?

Beth yw eich rôl chi yn helpu i leihau risg a dysgu gwersi o ymchwiliadau?

O ystyried y newid i fodel goruchwylio sy'n cael ei arwain gan y cyflogwr, beth ydych chi'n credu yw'r buddiannau i
a. Goruchwylwyr Bydwragedd
b. Bydwragedd
c. Menywod a'r cyhoedd

Ac a oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â'r newidiadau a'u heffaith ar Oruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd a menywod?

Pa mor dda ydych chi'n credu bod y paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd?

Beth ydych chi'n credu y dylid ei gyflwyno yn lle'r cymorth a roddwch i fenywod?

**Cwestiynau i Uwch Reolwyr**

Pa mor wybodus ydych chi ynglŷn â’r hyn sy’n digwydd gyda goruchwyliaeth yn awr a’r cynlluniau ar gyfer Gwanwyn 2017 a thu hwnt?

Beth ydych chi’n credu yw’r heriau mwyaf wrth ddarparu goruchwyliaeth effeithiol yn awr ac yn y dyfodol?

Beth yw manteision goruchwyliaeth a sut fydd y rhain yn gwella neu’n newid yn y dyfodol?

Pa drefniadau sy’n cael eu gwneud i gefnogi menywod yn y dyfodol a fyddai’n cysylltu â goruchwyliwr bydwragedd yn awr?

**Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth**

Pa gyswllt sydd gennych chi gyda Goruchwylwyr Bydwragedd yn awr?

Yn eich barn chi, pa mor effeithiol mae’r goruchwylwyr yn cefnogi dewisiadau menywod neu’n eu cynorthwyo gyda chwynion neu i ddod i delerau â phrofiadau anodd?

Ydych chi’n ymwybodol o’r newidiadau arfaethedig i oruchwyliaeth bydwragedd?

Beth yn eich barn chi yw manteision y model arfaethedig, yn arbennig i fenywod a’u teuluoedd?

A oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â’r newidiadau arfaethedig?

Beth ydych chi’n credu mae menywod am ei gael i sicrhau y gallant wneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain a chael cymorth pan fydd pethau wedi bod yn anodd?

**Arsylwadau ar yr amgylchedd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lle y cawsant eu harsylwi | | | | |
| A yw'r wybodaeth am Oruchwylwyr Bydwragedd wedi'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus? | | | | |
| A yw'r wybodaeth yn cynnwys y rhif ar alwad cywir ar gyfer Cymru gyfan? | | | | |
| A yw rôl y Goruchwylwyr Bydwragedd wedi'i disgrifio'n gywir yn y wybodaeth sy'n cael ei harddangos? | | | | |
| A oes esboniad clir o'r amgylchiadau y dylai defnyddwyr gwasanaeth gysylltu â'r Goruchwyliwr Bydwragedd? | | | | |
| A yw'r daflen ar gyfer Cymru gyfan am Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael mewn mannau cyhoeddus? | | | | |
| Sylwadau ychwanegol ar weledеdd | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Goruchwyliaeth. | | | | |
| Arsylwadau ychwanegol ar yr amgylchedd. | | | | |

## 12.3 Atodiad 3 – Holiadur yr adolygydd lleyg

**Paratoadau cyn yr archwiliad** **Bwrdd Iechyd:**

Adolygwch y wybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd am Oruchwylio Bydwragedd.

A yw'r rhif ar alwad yn gywir? Ydy ☐ Nac ydy ☐

A oes disgrifiad clir o beth y gall goruchwylwyr ei wneud dros fenywod? Oes ☐ Nac oes ☐

A oes dolen i wefan yr AGLl (AGIC)? Oes ☐ Nac oes ☐

A oes dolen i'r daflen "Delivering for you? Oes ☐ Nac oes ☐

**Nodiadau**

Dewiswch ar hap un o'r lleoliadau sy'n darparu gwasanaethau mamolaeth gan y bwrdd iechyd a ffoniwch y switsfwrdd a gofyn am y rhif ar alwad ar gyfer y goruchwyliwr bydwragedd.

**Y Lleoliad a Ffoniwyd:** **Y Rhif a Ddefnyddiwyd:**

A roddwyd y rhif ar alwad cywir i chi? Do ☐ Naddo ☐

**Nodiadau**

**Cwestiynau i fenywod a'u teuluoedd**

**Bwrdd Iechyd:** **Lleoliad:**

1. Lle / sut wnaethoch chi dderbyn eich gofal yn ystod eich beichiogrwydd? Ydych chi'n fodlon â'r gofal hwn?

2. A oedd unrhyw beth arbennig o dda am eich gofal? Neu a fu rhywun o gymorth penodol i chi?

3. A oes unrhyw beth y gellid bod wedi'i wneud yn well?

4. A oes gennych chi unrhyw bryderon am unrhyw un o'r bydwragedd y cawsoch gyswllt â hwy?

5. Os cawsoch broblem gyda bydwraig, neu eich gofal yn gyffredinol, ydych chi'n gwybod at bwy / i le y gallech fynd i gael cymorth / cyngor?

6. Ydych chi wedi clywed am Oruchwylwyr Bydwragedd? Esboniwch pwy / beth ydynt a beth allant ei wneud. Darparwch wybodaeth am sut i leoli eu manylion cyswllt yn y Bwrdd Iechyd / lleoliad penodol.

**Cwestiynau i Fydwragedd**

Enw: Rôl:

**Goruchwyliaeth Grŵp**

1. Ydych chi wedi cael eich Adolygiad Goruchwylio Blynyddol yn y 12 mis diwethaf ac a gafodd ei gwblhau mewn sesiwn goruchwyliaeth grŵp?

2. Trosolwg o'u goruchwyliaeth grŵp (faint, sut y cafodd ei threfnu, yr ystod o fydwragedd, unrhyw beth defnyddiol, unrhyw beth y gellid fod wedi'i wella?)

3. Sawl sesiwn grŵp ydych chi wedi'u mynychu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf? Mwy neu lai positif yn eu cylch? Y budd mwyaf? Y pwynt negyddol mwyaf?

**Goruchwyliaeth ar Alwad**

4. Ydych chi erioed wedi defnyddio'r rhif ar alwad Goruchwylwyr Bydwragedd i gysylltu â Goruchwyliwr yn y chwe mis diwethaf? Os ydych chi, sut brofiad oedd hyn? A wnaeth ddatrys eich problem ar y pryd?

**Ymchwiliadau**

5. Beth yw eich barn chi am rôl Goruchwylwyr Bydwragedd mewn ymchwiliadau? Positif / negyddol? A ydynt yn helpu i leihau risgiau / gwersi a ddysgwyd? A ydych wedi cael profiad uniongyrchol o ymchwiliad?

**Newidiadau Goruchwyliaeth**

6. Ydych chi’n ymwybodol o’r newidiadau i oruchwyliaeth a fydd yn cael eu cyflwyno erbyn Gwanwyn y flwyddyn nesaf? Ydych chi’n credu eich bod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am y newidiadau? A oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â’r model goruchwylio newydd a fydd yn cael ei arwain gan y cyflogwr? Pa mor dda ydych chi’n credu mae’r paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer trosglwyddo i’r trefniadau newydd?

7. Pa elfennau o’r model goruchwyliaeth presennol ydych chi’n credu y dylid eu cadw? A oes unrhyw beth yr hoffech i’r ddarpariaeth oruchwylio ei wneud nad yw’n ei wneud yn awr?

8. Ydych chi’n gwybod sut y bydd menywod yn cael eu cefnogi fel rhan o’r model newydd?

**Adborth**

9. A yw’r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwneud rhywbeth yr ydych chi’n credu sy’n arfer da iawn? Allwn ni roi eich adborth i’r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd?

**Cwestiynau i Oruchwylwyr Bydwragedd**

## Goruchwyliaeth Grŵp

1. Sgwrs gyffredinol am eu goruchwyliaeth grŵp, sut mae'n cael ei threfnu, presenoldeb, adborth ac yn y blaen.

2. Buddion a heriau goruchwyliaeth grŵp?

3. Enghraifft o rywbeth a drafodwyd yn y sesiwn goruchwyliaeth grŵp ac sydd wedi gwella'r dulliau o amddiffyn y cyhoedd o ganlyniad i hyn?

## Ymchwiliadau

4. Beth yw eich rôl chi yn helpu i leihau risg a dysgu gwersi o ymchwiliadau?

## Arfer Da

5. A oes unrhyw beth mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn credu sy'n arfer da iawn?

**Newidiadau i Oruchwyliaeth**

6. Pa mor wybodus ydych chi'n teimlo ynglŷn â'r newidiadau i oruchwyliaeth? A yw'r wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu yn y sefydliad? Pa mor dda ydych chi'n credu y mae'r paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer trosglwyddo i'r trefniadau newydd?

7. O ystyried y newid arfaethedig i fodel goruchwylio sy'n cael ei arwain gan y cyflogwr, beth ydych chi'n credu yw'r buddiannau i:

a. Goruchwylwyr Bydwragedd

b. Bydwragedd

c. Menywod a'r cyhoedd.

8. A oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â'r newidiadau a sut y byddant yn effeithio ar Oruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd a menywod?

9. Beth ydych chi'n credu dylai fod ar waith i ddisodli'r cymorth a gynigir gennych i fenywod? A yw eich sefydliad yn gwneud unrhyw gynlluniau ar gyfer y maes hwn?

**Cwestiynau ar gyfer Uwch Reolwyr**

1. Pa mor wybodus ydych chi ynglŷn â beth sy'n digwydd ym maes goruchwyliaeth yn awr a'r cynlluniau ar gyfer Gwanwyn 2017 a thu hwnt?

2. Beth ydych chi'n credu yw'r heriau mwyaf o ddarparu goruchwyliaeth effeithiol yn awr ac yn y dyfodol?

3. Beth yw buddion goruchwyliaeth a sut y bydd y rhain yn gwella neu'n newid yn y dyfodol?

4. Pa drefniadau sy'n cael eu gwneud i gynorthwyo menywod yn y dyfodol a fyddai'n cysylltu â goruchwyliwr bydwragedd yn awr?

**Cwestiynau i gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth**

Enw: Sefydliad:

1. Ydych chi'n gwybod beth yw Goruchwyliwr Bydwragedd? Ydych chi / eich sefydliad wedi derbyn gwybodaeth am Oruchwyliaeth? Pa gyswllt sydd gennych neu ydych chi wedi'i gael gyda Goruchwylwyr Bydwragedd?

2. Ydych chi'n gwybod pa mor effeithiol mae'r goruchwylwyr yn cefnogi dewisiadau menywod neu'n eu cynorthwyo gyda chŵynion neu i ddod i delerau â phrofiadau anodd?

3. Ydych chi'n credu bod menywod yn ymwybodol o Oruchwyliaeth a Goruchwylwyr Bydwragedd?

4. Ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i oruchwyliaeth bydwragedd?

5. Beth ydych chi'n credu yw manteision / anfanteision y model arfaethedig, yn arbennig o ran menywod a'u teuluoedd?

6. Beth ydych chi'n credu sydd ei angen ar fenywod i sicrhau y gallant wneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain a chael cymorth pan fydd pethau wedi bod yn anodd?

7. Beth ydych chi'n credu yw'r ffordd orau o ddosbarthu gwybodaeth i fenywod a'u teuluoedd?

## Gwybodaeth ac Arsylwadau Goruchwylwyr Bydwreigiaeth ar yr amgylchedd

| **Lleoliad** | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth glir am Oruchwylwyr Bydwragedd mewn mannau cyhoeddus? | | |
| Rhif ar alwad cywir Cymru gyfan? | | |
| A yw rôl Goruchwyliwr Bydwragedd wedi'i disgrifio'n gywir yn y wybodaeth? | | |
| A oes esboniad clir o'r amgylchiadau pan ddylai defnyddwyr gwasanaeth gysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd? | | |
| A oedd y daflen Cymru Gyfan ar Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael mewn mannau cyhoeddus? | | |
| Sylwadau eraill ar welededd Goruchwyliaeth / Goruchwylwyr | | |
| Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd | | |